CYFARWYDDYD, DOCUMENT

# Beth yw y bwlch cyflog? - Taflen ffeithiau

Mae bylchau cyflog ar sail rhyw, ethnigrwydd ac anabledd yn cyfeirio at y gwahaniaethau mewn cyflog fesul awr ar gyfartaledd rhwng gwahanol grwpiau o bobl yn y gweithle. O dan ddeddfwriaeth y DU, rhaid i gwmnïau sydd â 250 neu fwy o weithwyr gofnodi ac adrodd ar eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn flynyddol. Gall busnesau eraill benderfynu adrodd yn wirfoddol ar eu bylchau cyflog rhwng y rhywiau a bylchau cyflog eraill fel arfer da. Mae achosion bylchau cyflog yn lluosog ac yn gymhleth, ond mae camau ymarferol y gall busnesau eu cymryd i leihau'r bylchau, tra ar yr un pryd yn hyrwyddo mwy o amrywiaeth a chynhwysiant er budd staff a chyflogwyr.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 15 Ebrill 2024

**Diweddarwyd diwethaf:** 15 Ebrill 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://businesswales.gov.wales/cy/dogfennau/beth-yw-y-bwlch-cyflog-taflen-ffeithiau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

# Ar y dudalen hon

**Pam fod cau'r bwlch cyflog yn bwysig i fusnes?**

**Felly, beth all cyflogwyr ei wneud i gofnodi a lleihau bylchau cyflog?**

**Ble gallaf ddod o hyd i gyngor ac adnoddau i gyflogwyr?**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://businesswales.gov.wales/cy/dogfennau/beth-yw-y-bwlch-cyflog-taflen-ffeithiau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

# Pam fod cau'r bwlch cyflog yn bwysig i fusnes?

Gall cau bylchau cyflog yn eich gweithlu fod o fudd i fusnes mewn amrywiaeth eang o ffyrdd:

## 1. Nifer gwell o weithwyr yn aros gyda’r cwmni

Pan fydd gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu talu’n deg, maent yn fwy tebygol o aros gyda’r cwmni yn yr hirdymor. Mae hyn yn lleihau cost cyflogi a hyfforddi staff newydd, a all fod yn gost sylweddol i fusnesau bach.

## 2. Cynnydd mewn cynhyrchiant

Pan fydd gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u digolledu’n deg, maent yn fwy tebygol o fod yn llawn cymhelliant a chynhyrchiol. Gall hyn arwain at fwy o gynhyrchiant a phroffidioldeb i’r busnes.

## 3. Gwell enw da

Mae cwmnïau sy’n adnabyddus am drin eu gweithwyr yn deg yn fwy tebygol o ddenu’r dalent orau a chwsmeriaid ffyddlon. Mae ymchwil yn dangos yn gyson bod pobl eisiau teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y gwaith a gweithio i gyflogwyr sydd â delwedd gyffredinol ag enw da ac sy’n dilyn arferion cyflogaeth foesegol.

## 4. Llai o risg gyfreithiol

Gall methu â mynd i’r afael â bylchau cyflog adael busnesau yn agored i gamau cyfreithiol gan weithwyr sy’n teimlo eu bod wedi dioddef gwahaniaethu. Gall hyn fod yn gostus ac yn niweidiol i enw da’r busnes.

## 5. Gwell amrywiaeth a chynhwysiant

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://businesswales.gov.wales/cy/dogfennau/beth-yw-y-bwlch-cyflog-taflen-ffeithiau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

Gall mynd i'r afael â bylchau cyflog helpu i greu gweithle mwy amrywiol a chynhwysol, a all ddod ag ystod o fanteision, gan gynnwys mwy o greadigrwydd, arloesi a galluoedd datrys problemau.

## Felly, beth all cyflogwyr ei wneud i gofnodi a lleihau bylchau cyflog?

### Cyflwyno neu ehangu adroddiadau Bwlch Cyflog fel rhan o strategaeth EDI (Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant) effeithiol

Ymrwymo i fesur, olrhain ac adrodd a chau unrhyw fylchau cyflog ar sail rhyw, hil ac anabledd a all fodoli yn eich busnes. Hefyd, casglu data i olrhain amrywiaeth eich gweithlu, ac ymrwymo i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth ar draws y nodweddion gwarchodedig ar bob lefel o'r sefydliad.

Dylai eich strategaeth EDI fynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth gyfreithiol a dylai geisio ychwanegu gwerth at eich sefydliad trwy gyfrannu at ganlyniadau lles a chydraddoldeb i bob gweithiwr. Dylid datblygu'r strategaeth gan ddefnyddio profiadau staff ymylol a dylai fynd i'r afael ag ystod eang o nodweddion a phrofiadau personol gan gynnwys acen, oedran, cyfrifoldebau gofalu, lliw, diwylliant, anableddau gweladwy ac anweledig, hunaniaeth a mynegiant rhywedd, iechyd meddwl, niwroamrywiaeth, ymddangosiad corfforol, barn wleidyddol, beichiogrwydd a statws mamolaeth/tadolaeth a theulu ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol.

### Sicrhau eich bod yn talu o leiaf y cyflog byw gwirioneddol (RLW) i bob gweithiwr

Mae pobl ledled Cymru yn wynebu heriau gwirioneddol ar hyn o bryd o ran costau byw, gan ei gwneud yn bwysicach nag erioed i gyflogwyr ymrwymo i'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://businesswales.gov.wales/cy/dogfennau/beth-yw-y-bwlch-cyflog-taflen-ffeithiau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

Rydym yn deall bod busnesau yn wynebu pwysau ariannol enfawr hefyd, felly efallai nad yw ymrwymo i wariant ychwanegol ar gyflogau staff yn ymddangos yn ymarferol. Ond nid yn unig y bydd codi cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau eich gweithwyr, gall hefyd helpu i ddenu a chadw staff talentog, gan arbed arian i'ch busnes yn yr hirdymor.

## Ble gallaf ddod o hyd i gyngor ac adnoddau i gyflogwyr?

Mae gweithio i leihau bylchau cyflog yn un rhan o ddod yn gyflogwr Gwaith Teg. Yng Nghymru, diffinnir gwaith teg fel cyflogaeth sy'n bodloni'r chwe egwyddor hyn:

- Gwobrwyo eich gweithwyr yn deg
- Sicrhau bod lleisiau eich gweithwyr yn cael eu clywed
- Sicrhau diogelwch a hyblygrwydd ar gyfer eich gweithlu
- Rhoi cyfleoedd i'ch gweithwyr gael mynediad, datblygiad a dilyniant
- Creu amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol
- Parchu hawliau cyfreithiol eich gweithwyr

Mae yna gyfoeth o offer ar-lein i'ch helpu chi i roi'r egwyddorion hyn ar waith ar draws eich sefydliad ond rydym ni'n gwybod y gall llywio'ch ffordd trwy'r holl wybodaeth fod yn her felly edrychwch ar ein **canllawiau llawn** am awgrymiadau, cyngor a dolenni i adnoddau rhad ac am ddim

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://businesswales.gov.wales/cy/dogfennau/beth-yw-y-bwlch-cyflog-taflen-ffeithiau** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**